O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1130 (Cy. 136)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Merthyr Tudful a Phowys) (Gwahardd Dros Dro Draffig Cerbydol a Thraffig nad yw'n Gerbydol) 2012

Gwnaed	*9 Ebrill 2012*
Yn dod i rym	*16 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y Gefnffordd o Gaerdydd i Langurig (yr A470), Cefnffordd yr A40 o Raglan i Lanymddyfri (yr A40), y Gefnffordd o Barc Glan Wysg (Crucywel) i Lys-wen (yr A479) a'r Gefnffordd o Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd yn sgil y treial i symud llwyth anarferol na ellir ei rannu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470, yr A40, yr A479 a'r A483 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Merthyr Tudful a Phowys) (Gwahardd Dros Dro Draffig Cerbydol a Thraffig nad yw'n Gerbydol) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r treial sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y treial" ("*trial period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 16 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd y treial wedi cael ei gwblhau;